

NOSC 2026 Rhif 30

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Cyfnewidfa Dowlais, Dowlais,
Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i
Fryn-mawr, Blaenau Gwent)
(Gwahardd Cerbydau a Beicwyr
Dros Dro) 2026

Gwnaed 20 Chwefror 2026

Yn dod i rym 24 Chwefror 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, dewy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Dowlais, Dowlais, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i Fryn-mawr, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Chwefror 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

NWSI 2026 No. 30

ROAD TRAFFIC

The A465 Trunk Road (Dowlais
Interchange, Dowlais, Merthyr
Tydfil County Borough to
Brynmawr, Blaenau Gwent)
(Temporary Prohibition of
Vehicles and Cyclists) Order 2026

Made 20 February 2026

Coming into force 24 February 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Dowlais Interchange, Dowlais, Merthyr Tydfil County Borough to Brynmawr, Blaenau Gwent) (Temporary Traffic Prohibition of Vehicles and Cyclists) Order 2026 and this Order comes into force on 24 February 2026.

Interpretation

2. In this Order—

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 24 Chwefror 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i’r Fenni;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn..

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means –

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of the member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces —

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 24 February 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

20 Chwefror 2026



Tim Barnes

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

20 February 2026



Tim Barnes

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

YR ATODLEN (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro)

1. Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 o bwynt 365 o fetrau i'r gorllewin o drobont yr A4281 wrth Gyfnewidfa Glynebwy hyd at bwynt 70 o fetrau i'r gorllewin o drobont Pont Porth Jack Williams wrth Gyfnewidfa Pont-y-gof yr A467.
2. Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt 215 o fetrau i'r dwyrain o drobont Heol Llangynidr ar yr A4281 hyd at y man lle y mae'n uno â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd i'r gorllewin o Fryn-mawr.
3. Y darn hwnnw o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Rhymni o'r man lle y mae'n gadael prif gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd hyd at ei chyffordd â chylchfan gylchredol ogleddol yr A469.
4. Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Rhymni o'i chyffordd â chylchfan gylchredol ogleddol yr

SCHEDULE (Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists)

1. That length of the eastbound carriageway of the A465 trunk road from a point 365 metres west of the A4281 overbridge at the Ebbw Vale Interchange to a point 70 metres west of the Jack Williams Gateway Bridge overbridge at the A467 Pont-y-gof Interchange.
2. That length of the eastbound entry slip road of the trunk road from a point 215 metres east of Llangynidr Road overbridge on the A4281 to where it merges with the eastbound main carriageway of the trunk road west of Brynmawr.
3. That length of the eastbound exit slip road of the trunk road at Rhymney Interchange from where it leaves the eastbound main carriageway of the trunk road to its junction with the A469 northern circulatory roundabout.
4. That length of the eastbound entry slip road of the trunk road at Rhymney Interchange from its junction with the A469 northern circulatory

A469 hyd at y man lle y mae'n uno â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

5. Y darn hwnnw o ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Rhymni o'r man lle y mae'n gadael prif gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd hyd at ei chyffordd â chylchfan gylchredol ddeheuol yr A469.

roundabout to where it merges with the eastbound main carriageway of the trunk road.

5. That length of the westbound exit slip road of the trunk road at Rhymney Interchange from where it leaves the westbound main carriageway of the trunk road to its junction with the A469 southern circulatory roundabout.